

# Ystod fawr gwardigaeth Duw

*"...Boas oedd tad Obed, Obed oedd tad Jesse, a Jesse oedd tad Dafydd." (adn. 22)*

## Beth am ddarllen Ruth 4:18–22 ac yna myfyrio

Rydym ni'n meddwl yn aml bod y rhestrau achau a geir yn y Beibl yn anniddorol ac amherthnasol, ond mewn gwirionedd, mae'r wybodaeth a gawn ni ohonyn nhw, o'i deall, yn datguddio rhai o'r agweddau mwyaf cynhyrfus ar stori Dduw. Gwelsom ddoe sut dangosodd y frawddeg syml "galwasant ef Obed; ef oedd tad Jesse, tad Dafydd," i ni fod Ruth yn hen-nain i'r Brenin Dafydd, ac o'i linach ef y daeth ein Harglwydd Iesu Grist ei Hun.

Beth amser yn ôl buom yn edrych ar Mathew 1 ac ar linach Iesu, a gwelwn fod yna gysylltiad efo'n myfyrdodau ni dros y dyddiau diwethaf yma gan fod sôn yno am enw Ruth. Yn wir, mae'r llinach ym Mathew yn anarferol iawn am iddo wyro oddi wrth yr arferiad ar y pryd o restru'r ochr wrywaidd yn unig, ac yn cynnwys enwau pedair o ferched: Tamar, Rahab, Ruth a Bathsheba, mam Solomon. Twyllodd Tamar ei thad-yng-nghyfraith i genhedlu ei phlentyn (Gen. 38:18). Putain oedd Rahab a drigai yn Jericho (Josua 2). Fel y gwelsom, fe gyfeirir sawl gwaith at Ruth fel y 'Foabes' – dieithryn. Gwraig Ureia yr Hethiad oedd Bathsheba a gafodd berthynas odinebus â'r Brenin Dafydd. (2 Sam. 11:4). Mae'r esbonwyr wedi tynnu sylw at y ffaith fod pob un o'r merched hyn un ai yn ddieithriaid, yn anfoesol neu yn annerbyniol, ac eto fe gafon nhw eu cynnwys yn achau y Meseia.

Gwnaeth Eugene Peterson y sylw hyn ar y mater: "Mae hanes yr achub yn hanes dyfeisgar a chynhwysol. Does dim gwahaniaeth pwy oedd eich mam. Gall unrhyw un ddod i mewn i'r teulu. Gall hanes personol unrhyw un fod yn rhan o hanes y teulu." Ar yr olwg gyntaf, fe all achrestri ymddangos yn hynod o ddiiflas, ond maen nhw'n dangos yn rymus iawn ddulliau achubol Duw.

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Eseia 45:1–6;

Actau 10:34–48

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Pam mae Duw yn dewis rhai nad ydyn nhw'n ei gydnabod?
2. Beth newidiodd safbwynt y credinwyr enwaededig?

## Gweddi

O Dad, rwyf ar goll am eiriau pan ystyriaf yr holl ffyrdd sydd gennyf ti o adfer a defnyddio sefyllfaoedd. Mae dy allu rhagorol i droi pethau negyddol yn rhai cadarnhaol yn fy nghyfareddu ac yn fy nghalonogi hefyd. Diolch i ti, O Dad. Amen.